**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JB-PO-558-25

John Griffths MS, Cadeirydd, Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

5 Tachwedd 2025

Annwyl John

Diolch am ddarparu cwestiynau'r Pwyllgor am Fil Diogelwch Adeiladu (Cymru). Mae fy ymatebion ynghlwm yn Atodiad 1.

Cytunais hefyd i ysgrifennu atoch ar wahanol faterion, gan gynnwys y model cyflawni ar gyfer Awdurdodau Diogelwch Adeiladu, cynllunio'r gweithlu a phrentisiaethau ar gyfer swyddogion iechyd yr amgylchedd.

Rwy'n rhannu'r dymuniad i weld awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni eu swyddogaethau o dan y drefn newydd.

Comisiynwyd cymorth gan Bartneriaethau Lleol i gynghori awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill, a gweithio gyda nhw, mewn perthynas â datblygu model cyflawni i sicrhau bod y Bil yn cael ei weithredu mewn ffordd lwyddiannus. Roedd cylch gwaith y Partneriaethau Lleol wedi'i gyfyngu i'r modelau cyflawni yn bosibl o dan y Bil, gyda swyddogaethau Awdurdodau Diogelwch Adeiladu yn cael eu rhoi i awdurdodau lleol. Felly, nid ystyrid Tîm Arolygu ar y Cyd yn fodel cyflawni posibl. Roedd y gwaith hwn yn golygu ymgysylltu ag awdurdodau lleol ac awdurdodau tân ac achub mewn modd strategol, gyda'r nod lefel uchel o awdurdodau lleol yn cytuno ar fodel gweithredu ar gyfer Awdurdodau Diogelwch Adeiladu ledled Cymru.

Rwyf wedi derbyn adroddiad y Partneriaethau Lleol yn ddiweddar ac wedi cytuno â'r argymhelliad i awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd, gan adlewyrchu ôl troed pob un o'r tri awdurdod tân ac achub, gydag un awdurdod yn cymryd yr awenau ym mhob ardal.

Roedd yn glir y ffefrir cydweithio ar draws sawl awdurdod a chonsensws eang y dylai'r Awdurdodau Diogelwch Adeiladu newydd weithredu'n agos ag awdurdodau tân ac achub. Bydd Partneriaethau Lleol nawr yn bwrw ymlaen i gefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu 'llwybr critigol' sy'n nodi'r camau angenrheidiol tuag at weithio gyda'i gilydd yn y modd hwn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn cefnogi awdurdodau lleol ymhellach i baratoi ar gyfer y drefn newydd, rwyf hefyd wedi gofyn i'm swyddogion archwilio i ddatblygu platfform TG cenedlaethol canolog. Bydd hyn yn cael ei wneud mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac awdurdodau tân ac achub i sicrhau ei fod yn diwallu eu hanghenion. Bydd hefyd yn cael ei wneud ar draws Llywodraeth Cymru i sicrhau cydweithio lle bo hynny'n briodol a'n bod yn ystyried profiadau ac yn dysgu gwersi o rannau eraill ar draws y Llywodraeth.

Fel y nodais wrth y Pwyllgor, er mwyn cefnogi gweithredu'r Bil mae fy swyddogion yn arwain ffrwd waith gyda ffocws penodol ar weithlu awdurdodau lleol. Un o amcanion craidd y ffrwd waith yw datblygu cynllun strategol ar gyfer y gweithlu, sy'n cael ei gyd-gynllunio gydag awdurdodau lleol a CLlLC.

Bydd cynllun y gweithlu'n canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â recriwtio, cadw staff a datblygu sgiliau. Bydd y cynllun yn arwain at fuddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant drwy brentisiaethau o dan y drefn newydd, i sicrhau ein bod yn cynllunio'r gweithlu mewn ffordd gydlynol. Byddaf yn hapus i rannu'r cynllun â'r Pwyllgor pan fydd y fersiwn derfynol yn barod.

Roeddwn i'n hapus i hysbysu'r Pwyllgor ein bod wedi datblygu prentisiaethau uwch ar gyfer swyddogion iechyd yr amgylchedd, a aeth yn fyw yn gynharach eleni. Mae'r rhaglen hon eisoes yn cefnogi prentisiaid ym maes iechyd yr amgylchedd ledled Cymru. Mae fy swyddogion yn parhau i weithio gyda'r sector a Medr (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) mewn perthynas â datblygu prentisiaeth gradd ar gyfer ymarferwyr iechyd yr amgylchedd.

Hoffwn hefyd barhau â'r drafodaeth yn y Pwyllgor ynghylch costau ychwanegol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Yn gyntaf, mae'r trawsgrifiad o'ch sesiwn dystiolaeth lafar ar 9 Hydref yn dangos nad oedd Trivallis yn honni bod y costau iddynt oddeutu £100,000. Priodolodd Cartrefi Cymunedol Cymru hynny i gymdeithas dai arall, ddienw sydd, yn ôl pob golwg, yn adlewyrchu cost cynnal asesiadau risg tân ym mhob adeilad categori 3. Fodd bynnag, mae angen asesiadau risg tân nawr o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân ar gyfer adeiladau o'r fath, felly nid yw'r rhain yn gostau ychwanegol sy'n deillio o'r Bil.

Yn ail, rydym wedi cael ymgysylltu ymhellach â Chartrefi Cymunedol Cymru ers hynny, ac mae'n debyg eu bod nhw a'u haelodau wedi camddehongli rhai elfennau o'r Bil. Yn benodol, roeddent yn credu bod y Bil yn gofyn am asesiadau risg tân blynyddol ar gyfer pob adeilad o fewn y cwmpas. Efallai mai dyma'r rheswm dros rai o'r amcangyfrifon cost a gyflwynwyd i'r Pwyllgor. Mae adran 30(5) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r prif berson atebol sicrhau bod yr asesiad risg tân cyfredol yn *cael ei adolygu* o leiaf unwaith bob 12 mis ar ôl i'r asesiad gael ei wneud. Dim ond mewn yr amgylchiadau a bennir yn adran 30(2) neu pan fo'r awdurdod diogelwch tân yn cyfarwyddo i wneud hynny (adran 30(4)) y mae angen asesiad *newydd*.

Mae fy swyddogion wedi cael ymgysylltiad helaeth â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a Chartrefi Cymunedol Cymru, gan gynnwys cyflwyno yn nigwyddiad Cymuned Aelodau Diogelwch Cartrefi Cymunedol Cymru yn gynharach yn y flwyddyn, i gefnogi eu dealltwriaeth o sut y bydd y Bil yn effeithio ar y sector. Yn ddiweddar, ymatebodd swyddogion i 27 pwynt o eglurhad y gofynnwyd amdanynt gan Gartrefi Cymunedol Cymru ac mae sesiwn arall gyda Chartrefi Cymunedol Cymru a'u haelodau wedi cael ei threfnu. Rwy'n cydnabod bod y drefn newydd yn gymhleth a byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid trwy gydol y gweithredu i sicrhau bod pawb yn deall beth sy'n ofynnol ganddynt.

Gallaf hefyd gadarnhau bod meddyliau cynrychiolwyr y sector telathrebu wedi cael eu tawelu wrth ddysgu nad yw'r Bil yn delio â rheoliadau adeiladu, yn wahanol i Ddeddf Diogelwch Adeiladu 2022. Hefyd, ni fydd proses porth 2 yng Nghymru yn dibynnu ar un rheoleiddiwr, fel y mae yn Lloegr. Mae'r sector telathrebu yn awyddus i osgoi'r anawsterau ymarferol y mae wedi'u profi gyda phroses porth 2 yn Lloegr. I'r perwyl hwnnw, mae swyddogion yn gwneud trefniadau i gynrychiolwyr y sector drafod y manylion ag awdurdodau lleol Cymru cyn eu gweithredu o’r broses porth 2 yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwnnw ar wahân i'r Bil a'i weithredu maes o law, ac nid oes ganddo unrhyw oblygiadau yn hyn o beth.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn helpu gydag ystyriaethau parhaus y Pwyllgor, ac edrychaf ymlaen at dderbyn ei adroddiad maes o law.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir



**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
Cabinet Secretary for Housing and Local Government

**Atodiad 1: Ymateb i Gwestiynau gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar y Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru)**

1. **A ydych yn cydnabod y gallai fod yna ganlyniadau anfwriadol yn gysylltiedig ag adran 65, o ystyried y risgiau i ddiogelwch deiliadaeth tenantiaid a allai ddeillio o atal rhenti? Os felly, a yw'r buddion sy'n gysylltiedig â'r hawl i atal rhenti yn gorbwyso'r risgiau?**

   Mae adran 65 o'r Bil yn ceisio sicrhau bod rhaid i ofynion ysgrifenedig penodol a roddir i denant gynnwys yr wybodaeth berthnasol o ran diogelwch adeiladau, megis enw a manylion cyswllt y prif berson atebol. Byddem yn annog preswylwyr sy'n ystyried nad yw rhent yn ddyledus o ganlyniad i'r ddarpariaeth hon i ofyn am gyngor eu hunain. Rydym hefyd yn bwriadu cyhoeddi canllawiau ar hyn.

   Mae grymuso preswylwyr wrth wraidd y gyfundrefn. Mae sicrhau bod gan breswylwyr yr wybodaeth hanfodol hon i'w galluogi i godi pryderon a chael trafodaethau gyda'r prif berson atebol a'r awdurdod diogelwch adeiladau ar gyfer eu hadeilad yn hollbwysig. Rwy'n hyderus bod y diwygiadau a wnaed i Ddeddf Landlord a Thenant 1987 yn rhesymol i sicrhau bod preswylwyr yn cael eu grymuso gyda'r wybodaeth hanfodol sydd ei hangen arnynt er mwyn codi unrhyw bryderon am ddiogelwch eu hadeilad.

2. **Rydym wedi clywed sylwadau cryf bod darparu llawer o wybodaeth i denantiaid yn ddrud i landlordiaid, ac nid yw o reidrwydd yn fwy tryloyw, os nad yw tenantiaid yn gallu deall y wybodaeth a roddir iddynt. A fyddech yn ystyried diwygio'r ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth yn 65, a chreu dyletswydd yn lle hynny i 'sicrhau bod gwybodaeth ar gael', a hynny er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd ynghylch costau?**

   Clywais y sylwadau i'r Pwyllgor y gallai darparu llawer o wybodaeth i denantiaid fod yn ddrud, ond nid wyf yn cytuno bod angen i ni ddiwygio'r ddyletswydd yn adran 65 na'r ddyletswydd yn adran 46. Gwybodaeth gyswllt yn bennaf yw'r wybodaeth y byddai'n ofynnol ei darparu, ar wyneb adrannau newydd 47B a 49B o Ddeddf Landlord a Thenant 1987 (a fewnosodwyd gan adran 65). Credwn fod y dyletswyddau hyn yn gymesur. Nid oes gennym unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ragnodi rhagor o wybodaeth o dan adran 49B(5)(e). Mae adran 46 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson atebol ar gyfer adeilad rheoleiddiedig roi gwybodaeth neu gopïau o ddogfennau penodol i bobl eraill, gan gynnwys preswylwyr. Rydym yn bwriadu defnyddio rheoliadau i nodi pa wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi i breswylwyr yn rheolaidd, a pha wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi i breswylydd os ydynt wedi gofyn amdani (adran 46(4)). Bydd pa wybodaeth, sut y mae'n rhaid i'r wybodaeth gael ei rhoi neu gopïau o ddogfennau y mae'n rhaid eu rhoi, a'r fformat y mae'n rhaid iddynt gael eu rhoi, yn cael eu nodi mewn rheoliadau a byddant wrth gwrs yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Gallai rheoliadau, er enghraifft, ragnodi y gellid darparu gwybodaeth benodol yn electronig os mai dyma'r dull cyfathrebu a ffefrir gan breswylydd. Ond yn fras, rydym yn disgwyl y byddai'r wybodaeth a fyddai'n cael ei rhoi yn rheolaidd i breswylwyr yn wybodaeth safonol megis, er enghraifft, gwybodaeth am yr hyn y dylai preswylwyr ei wneud pe bai tân, sut y gall

preswylwyr godi cwynion am ddiogelwch adeiladau, manylion cyswllt ar gyfer y prif bersonau atebol a'r personau atebol a gwybodaeth am ddyletswyddau preswylwyr. Bydd rhan bwysig o'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar fformat yr wybodaeth sydd i'w darparu, gan sicrhau ei bod yn glir, yn gymesur ac yn hygyrch. Byddwn, wrth gwrs, yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i lunio cynnwys a fformat yr wybodaeth a ddarperir i breswylwyr.

Mae'r gyfundrefn wedi'i chynllunio i unioni'r fantol rhwng preswylwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am eu hadeiladau. Er budd tryloywder a diogelwch preswylwyr, ystyrir bod dyletswyddau a roddir ar bersonau atebol i ddarparu gwybodaeth i breswylwyr yn rhesymol ac yn deg. Roedd pwysigrwydd hanfodol darparu gwybodaeth am ddiogelwch adeiladau i breswylwyr yn un o ganfyddiadau allweddol Adroddiad Hackitt, a nododd fod llawer o breswylwyr yn rhwystredig yn sgil natur ysbeidiol a rhannol gwybodaeth am ddiogelwch adeiladau. Argymhellodd y dylid darparu set o wybodaeth i breswylwyr sy'n eu helpu i ddeall y systemau diogelwch sydd ar waith ar gyfer eu hadeilad. Yn ein gwaith ymchwil ac ymgysylltu â phreswylwyr, maent wedi dweud wrthym yn gyson am bwysigrwydd derbyn gwybodaeth am ddiogelwch adeiladau er mwyn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi ac i ddeall eu rôl eu hunain wrth gadw eu hadeilad yn ddiogel.

**3. Rydym wedi clywed galwad i ddiwygio'r Bil fel bod rhaid i Bersonau Atebol mewn adeiladau Categori 1 gynnwys preswylwyr yn natblygiad y strategaeth ymgysylltu sy'n ofynnol o dan y Bil, ac yn benodol o ran prosesau gwacáu, yn enwedig ar gyfer pobl anabl. Beth yw eich barn ar y sylwadau hyn, ac a fyddech yn ystyried gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r materion hyn yng Nghyfnod 2?**

Rydym yn llwyr gydnabod pwysigrwydd gwaith ymgysylltu ystyrlon â phreswylwyr a gwerth cyd-lunio strategaethau gyda phreswylwyr. Gwelais dros fy hun pan ymwelais â St Tydfil’s Court ym Merthyr Tudful yn yr haf sut y mae preswylwyr yn teimlo wedi'u grymuso gan y prosesau sydd gan Gartrefi Cymoedd Merthyr ar waith i ymgysylltu â phreswylwyr a pha wahaniaeth mae hynny'n ei wneud i'r ffordd maen nhw'n teimlo am yr adeilad maen nhw'n byw ynddo.

Dyna pam rydym wedi cynnwys pwerau gwneud rheoleiddio o dan adran 39(7)(a), a fydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu amgylchiadau lle mae'n rhaid i ymgynghori â thrigolion ynghylch y strategaeth ymgysylltu preswyl ddigwydd. Bydd y rheoliadau hyn yn pennu o dan ba amgylchiadau yr ymgynghorir â phreswylwyr. Er enghraifft, gallai hynny gynnwys pan fydd y strategaeth yn cael ei llunio neu pan fydd unrhyw ddiwygiadau yn cael eu gwneud i'r strategaeth, neu pan fydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r adeilad sy'n gofyn am ddiweddaru'r strategaeth. Bydd gwaith datblygu'r rheoliadau hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Byddwn yn annog rhanddeiliaid i ymwneud â'r broses honno fel y gallwn lunio'r rheoliadau mewn ffordd sy'n adlewyrchu profiad bywyd preswylwyr a'r realiti gweithredol ar gyfer pobl atebol.

Mewn perthynas â phrosesau gwacáu ar gyfer pobl anabl, nodwyd yn ein hymateb i adroddiad Ymchwiliad Tŵr Grenfell ein bod wedi ymrwymo i weithio

gyda rhanddeiliaid i nodi'r dulliau mwyaf priodol o sicrhau bod darpariaethau ar waith i gynllunio ar gyfer gwacáu trigolion y mae eu gallu i hunan-wacáu yn cael ei gyfaddawdu. Mae'r Bil eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i bersonau atebol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod preswylwyr yn gallu dianc o'r fangre yn gyflym ac yn ddiogel. Mae hynny'n cynnwys preswylwyr anabl. Os oes angen, gall Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach am y mater hwn mewn rheoliadau a chanllawiau. Mae sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei wneud mewn partneriaeth â phawb sydd â diddordeb yn y maes hwn yn bwysig iawn. Mae fy swyddogion wedi cael trafodaethau gyda phobl anabl, gan gynnwys Anabledd Cymru, am yr heriau y maent yn eu hwynebu wrth wacáu adeiladau a'r atebion yr hoffent eu gweld. Nid oes un ateb sy'n addas i bawb, ond roedd cynlluniau gwacáu yn rhan o'r trafodaethau hynny.

Rydym hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio data am bobl agored i niwed, sydd eisoes yn cael ei gadw'n ddiogel, i lywio'r ymateb i argyfwng ac, lle bo angen, achub pobl o'r fath.